# Ordinhad 23
# Penodi a Dyrchafu Staff Academaidd

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 26 Tachwedd 2020

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.ac.uk / 01970 622048

**Statws y polisi:** Diwygiedig

**Fersiwn:** 2.1

**Dyddiad adolygiad diwethaf:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2025

**ORDINHAD 23**
**PENODI A DYRCHAFU STAFF ACADEMAIDD**

1. Personau sydd yn gymwys

    1. Gall y Brifysgol benodi unigolyn swydd academaidd yn y Brifysgol yn dilyn trefn gystadleuol o recriwtio a dewis.

    2. Gall y Brifysgol hefyd, trwy drefn o ddyrchafu, roi teitl Athro, Prif Gymrawd Ymchwil, Darllenydd, Uwch Gymrawd Ymchwil, Uwch Ddarlithydd, neu Ddarlithydd i un o staff y Brifysgol.

2. Meini Prawf ar gyfer dyrchafu neu benodi

    Rhaid i rai sy'n ymgeisio i gael eu penodi neu eu dyrchafu ddangos eu bod yn cyflawni'r meini prawf cyhoeddedig mewn addysgu, ymchwil ac arweinyddiaeth. Bydd y meini prawf perthnasol yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu disgwyliadau'r Brifysgol.

3. Gweithdrefn Penodi i swyddi a hysbysebir

    Bydd ceisiadau am swyddi a hysbysebir yn cael eu hystyried gan Banel Penodi priodol a gynullir yn unol â chanllawiau cyhoeddedig.

4. Gweithdrefn Dyrchafu i aelodau staff cyfredol

    1. Bydd y Brifysgol yn gwahodd staff i gyflwyno cais am ddyrchafiad academaidd yn unol ag amserlen a gyhoeddir. Gall ymgeisydd ddewis mentor i weithio gyda nhw ar eu cais am ddyrchafiad.

    2. Bydd geirdaon mewnol ac adroddiadau aseswyr allanol ond yn cael eu trefnu yn unol â chanllawiau cyhoeddedig.

    3. Bydd Panel Dyrchafiadau yn cael ei gynnull i ystyried yr holl geisiadau a dderbynnir yn unol â'r prosesau dewis a gyhoeddir.

5. Adrodd

    1. Bydd pob penodiad a wneir i Gadair dilyn proses recriwtio a dethol gystadleuol yn cael eu hadrodd i'r Cyngor, fel arfer fel rhan o adroddiad sefydlog yr Is-Ganghellor.

    2. Bydd pob dyrchafiad i swydd academaidd yn dilyn proses ddyrchafiadau'r Brifysgol yn cael eu hadrodd er gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio yn flynyddol.